

NID OEDD papur dyddiol na theledu na radio ar gael yn yr hen ddyddiau. Byddai fy nhad yn sôn am ei dadcu yntau, James Rees, a anwyd yn y Cwm, Abergwaun, yn 1801 ac a symudodd wedyn i Gas-mael, ei fod, erbyn iddo gyrraedd 22 mlwydd oed, yn gallu darllen Saesneg a Chymraeg yn rhugl. Bu'n gweithio wrth ei grefft saer maen ym mhorthladd Aberdaugleddau lle manteisiodd ar y cyfle i berffeithio ei Saesneg. Ef oedd yr unig un yn y pentref a siaraddi Saesneg.

Derbyniad John Pugh, offeiriad Cas-fuwch, bapur newydd Saesneg ac wedi'i ddarllen fe'i danfonai ymlaen at James Rees. Pan glywai pentrefwyr Cas-mael fod y papur newydd wedi cyrraedd ymgasglent o amgylch y darllenwr Saesneg yn efail y gof i glywed beth oedd cynnwys y papur. Ystyriant James Rees yn anffaeledig, bron, yn ei wybodaeth o bynciau'r dydd.

Adroddid hanesion cyffrous y dydd hefyd trwy gyfrwng y baledi. Cofiaf fy nhad, a fagwyd yn yr Ystrad yn y Rhondda yn sôn am y baledwr a ddôl yn ei dro at y bont wrth ymyl y man lle saif gorsaf yr Ystrad heddiw: byddai'n gosod i'fyny declyn tebyg i sychwr dillad, *clothes horse* yn yr iaith fain, ac yn hongian arno faledi yn

# IFOR CWM GWÏS

adrodd hanesion cyffrous y dydd, megis llofruddiaethau, ffwydradau yn y pwll glo a llongddrylliadau.

Canai'r gwahanol faledi yn ôl fel y dymunai gwahanol aelodau'r dorf a oedd wedi ymgasglu i wrando arno; yna fe'i gwerthai am ddwy geiniog yr un.

Tyrrai ieuenctid y ganrif ddiwethaf i brynu baledi fel yr heidia'n gwyr ieuainc heddiw i brynu recordiau o bob math yn siopau'n trefi a'n pentrefi. Yr oedd baledi a thribannau'r oes o'r blaen mor llawn o hwyl a diredi ag yw'n recordiau ni heddiw.

\* \* \* \* \*

CEID dosbarth arbennig o feirdd ac o farddoniaeth ddoniol, ddigrif, ymysg beirdd gwlad y dyddiau gynt. Bardd a fu'n crwydro ac yn canu i'r werin yng Nghwm Rhondda ac ym Mhontypridd yn ystod y ganrif ddiwethaf oedd John Thomas neu Ifor Cwm Gwys fel y'i gelwid gan ei gyfeillion. Ganwyd ef yng Nghwm Gwys ar y ffin rhwng Sir Forgannwg a Sir Gaerfyrddin.

Ni fyddai'n crwydro o lys i lys yn null hen feirdd crwydro Morgannwg, a ganai i'w noddwyr yn y Coety ac Aberpergwm, Margam, Meiscyn a Chastellnedd. Yn hytrach symudai ef o bwl i bwl yn ôl ei amgylchiadau ac yn ôl y cyfle am waith. Os na fyddai talcen glo wrth ei fodd, neu, os blinai ar ei le, symudai ymlaen i'r pwl nesaf.

Weithiau byddai'r goruchwyliwr neu'r gaffer yn colli ei dymer am fod syched Ifor wedi mynd yn drech nag ef ac iddo felly gollu diwrnodau o waith; yna byddai Ifor yn mynd ymlaen i le arall. Treuliodd flynyddoedd lawer yn gwibio o bwl i bwl. Ni arhosai'n hir yn unman; hwy'r neu hwy'rach dychwelai at ei hen gyfaill, Meudwy Glan Elai, ym Mhontypridd.

Gŵr bychan o gorff, ansefydlog ei rawd, oedd Ifor, ond o feddwl cadarn; araf ei symudiad, cyflwm ei dafod, wedi eifeddu dychymyg cryf. Ar ei grwydriadau hoffai alw heibio i'w gyfeillion, y beirdd, yn enwedig os digwyddent gadw tŷ tafarn.

Un tro galwodd ar ei hen gyfaill, "Y Carw Coch", neu "Wil o'r Stag", fel y'i gelwid yn Aberdâr. Pan aeth i mewn i'r tŷ dywedodd Wil wrtho fod yn dda ganddo weld ei gyfaill, am ei fod yn awyddus i gael beddargraff ganddo i'w osod ar feddfaen Magws, ei wraig, a gladdwyd ychydig ddiwrnodau ynghynt.

Galwodd Ifor am lasaid o gwrw er mwyn cael amser i feddwl ac i nyddu englyn yn feddargraff. Dechreuodd holi'i gyfaill

"Wel, Wil, wyt ti'n gallu byw ar y dafarn fach yma?"

"Otw," meddai Wil "a thrwy

## BETI RHYS a bardd y werin

werthu tipyn o datws gyda hynny."

"Da iawn," ebe Ifor. Yna ychwanegodd, "Gad weld, sut y bu hi ar Magws, druan?"

"O," meddai Wil, "yr oedd yn cael ei blino ers llawer dydd, fel y gwyddost, â pheswch poenus, a gwaeth na'r cwbl, wel'di, mae'r hen dŷ ma â chymaint o fwg ynddo nes o'r diwedd fe ddfifethws hi."

Daliodd Ifor ar y talfyriad -ws. Yn y diwedd cydiodd yn ei wydraid o ddiod oddi ar y bwrdd a chan symud lwrw'i gefn o gyrraedd Wil i gyfeiriad y drws, meddai,

"Dyma'r englyn, a wn i a wnaiff hi'r troi."

O'i thŷ mwg yr aeg Magws-o oer stŵr  
Wil o'r Stag a'i datws,  
Ac yn y nef hi lefws,  
Mae Wil draw'n ymyl y drws.

\* \* \* \* \*

CYHOEDDODD ddau lyfryn o'i ganeuon, sef Ceiniog Gwenlais yn 1862 a Difyrion Meddyliol, sef ychydig o Ganiadau Difyr ar Wahanol Destunau gan Ifor Cwm Gwys, yn 1866. Difyr a digrif yw llawer o'i gerddi. Dyma englyn i'r Rhaw sy'n nodweddiadol o'i ganu.

Offeryn wedi'i phuro - yw rhaw deg,  
Trwy dân, a'i chymhwyso  
I agor rhych, mae'n sier o  
Wneud ei gwaith ond ei gwithio.

Dyma'i englyn i'r Cawell  
Magu neu'r Crud:

Lle myg yw'r Cawell Magu-i ddynd bach  
Ddwyn ei bwys i gysgu,  
A'i fam a'i glân gyngan gu  
A'i throed yn cydweithredu.

Sylwn ar feiddgarwch ei feddwl  
yn ei englyn i'r Meddwl:

Chwilgar fod uchelgryf ei edyn-braidd  
Gall meltt brysg ei ddilyn;  
Dawn yr enaid neu ronyn  
O ddellw Duw yw meddwl dyn.

Bu canu mawr ar ei gân dyner i Gadair Gwellt fy Mam gan faledwyr ar hyd strydoedd Pontypridd a chymoedd y Rhondda, Aberdâr a Merthyr am flynyddoedd yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Yr oedd Ifor yn hynod am ddireidi ei ysbryd a pharodrwydd ei awen. Pan dorodd ei fraich mewn anffawd yn y pwll glo, cyn iddo gyrraedd y tŷ yr oedd wedi nyddu'r englyn hwn:

Slap i lawr daeth slip o lo-er fy mraw  
Ar fy mraich wrth holo;  
Mewn poen mawr i'r llawr fel llo  
Ymroliais mewn mawr wylo.

Anodd yw cael gafael ar ei gân ddigrif ar Shon Shir Gâr a Dan y Cardi'n mynd i'r Exhibition, a gyhoeddwyd yng Ngardd Aberdâr. Dyma ddarnau o'r gân ddigrif honno:

Aeth Shon Shir Gâr yn eitha' hyf  
A Dan y Cardi'n gydweidd  
I Lundain fawr ei mwyn cael gweld  
Yr Arddangosfa ryfedd.

'Roedd Britch a gwasgod cot lliw swy  
O frethyn lliw glas gwannaidd

Gan Dan a'r rheini'n flew i gyd  
Yn agos cyd â 'mysedd,  
A chrys o wlanen wen a bras  
A sanau glas lliw'r awyr,  
A sgidiau hoelion ar ei drad,  
'Nôl dull y wlad yn gywir.

'Roedd Shon mewn british rib fel dyn,  
A chot o folsin golau,  
A gwasgod fach o waith ei fam,  
A getars am ei goesau;  
Rhyw het o frethyn hyll ei grân  
A'i wallt yn fân reffynau  
O eisiau'i gribo (gwyddoch pam)  
Yn crogi am ei gemau.

YR OEDD Shon yn un o'r cymeriadau rhyfeddaf a ddaeth erioed o Landeilo ac ni cheid neb tebyg iddo rhwng Landeilo a Llanybydder. Dyma'u helynt yn cyrraedd Llundain oherwydd eu diffyg gwybodaeth o Saesneg:

'Rôl cyrraedd Llundain aent i'r Swan  
A galwodd Dan am "ddamper"  
Gan ddechrau holi'n fawr ei hawl  
Am fara chawl i swper;  
Ond gan mai Saesnes gadwai'r tŷ  
Anffodus fu ar Dani,  
Fe orfu mynd er maint ei nag,  
A chylla gwag i'r gwely.

Difyr yw'r disgrifiad ohonynt ar ginio yn y Travellers' Rest:

A Shon yn holi gyda hawl  
Am fara chawl yn gynta;  
Ond uchafnod y gân ydyw'r  
ymweliad â'r Arddangosfa yn y  
Plas Grisial:

Dydd Iau aeth Dan a Shon Shir Gâr  
Ill dau fel pâr o ychen  
I weld y Palas Gwydr oll a rhai  
O ryfeddodau Llundan,  
Rhoes Dan ei fraich ym mraich 'r hen  
Shon

Rhag ofon cael eu rhannu  
Oddi wrth ei glydd fel dau ffrind  
Ac un i fynd i goll,  
'Roedd Dan y Cardi'n cadw 'i god  
O fewn i drod ei hosan  
Rhoes Shon hi'n mrest ei wasgod fraith  
Mewn pws o'i waith ei hunan.

Y funud yr aethant trwy ddrws  
dychwelyd o'r brifddinas ac yn  
syndod gan seiniau soniarus yr  
organ fawr a mwy fyth pan  
welsant ddynd yn chwythu'r fegin:

'Rôl mynd trwy ddrws y Palas, Dau  
Ymwylltodd gan groch weiddi  
"N wiriona, Shon, edrych, trô,  
Clyw'i fegin 'co yn canu,"  
'N'ad elo'i Dan, ni chlywais i  
Eriod o gân 'nhadcu a'i delyn,  
A wel'di, Dan, mae'n whwrth rân,  
Mor ffeinedd cân y fegin.

Disgrif y ddau hen gyfaill yn  
dychwelyd o'r brif ddinas ac yn  
adrodd am y pethau rhyfedd o  
anhygoel a welsant ar eu taith. Yr  
oedd y gân hon yn ddigon i  
gadw'r eisteddfod fechan honno  
a gynhaliwyd yng ngwesty'r  
Fairoak dan nawdd Meudwy  
Glan Elai yn fyw ar gof y werin  
am lawer i flwyddyn.

## AR WERTH

Saunders Lewis: Williams  
Pantycelyn. Llundain, Gwasg  
Foyle's, 1927.

Owen M. Edwards: Clych Atgof:  
penodau yn hanes fy addysg. Y  
Drenewydd, Gwasg Gregynog,  
1933. Copi rhif 55 o'r 400 a  
argraffwyd.

Daniel Rowlands; Deuddeg o  
bregethau. Aberystwyth.  
Argraffwyd ac ar werth gan Samuel  
Williams, 1814.

## AR WERTH

Y Parch G. Howells, Panteg,  
Queen's Square, Aberystwyth,  
Dyfed. SY23 2HL. (0970)  
625403.

Casgliad o Emwau Lleoedd ym  
Mhlwyf Llandderfel Ynghyddâ  
Diwydiannau Coll Plwyf  
Llandderfel. £6

Paham y Llogasom yr Ysgol Fomio  
gan Saunders Lewis a Lewis  
Valentine (Anerchiad Saunders  
Lewis i'r Llys yng Nghaernarfon,  
Hydref 13, 1936) Pamffled £3.50.

William Jones (1944), Yr Ogof  
(1945), Chwalfa (1946), T.  
Rowland Hughes. (Gwasg  
Aberystwyth) £2 yr un.

Argraffiad Coffhaol o Weithiau  
Daniel Owen gan gynnwys Cofiant  
Daniel Owen (Hughes a'i Fab) 5  
cyfrol. £2 yr un.

Y Tadau Methodistaidd gan Y  
Parch. John Morgan Jones a  
William Morgan (Lewis Evans,  
Abertawe 1897) 2 gyfrol £4.

Gweithiau Ceiriog (Hughes a'i Fab  
1911) 3 cyfrol, £1 yr un.

Cnoi Cil gan Gwenallt (Gwasg  
Aberystwyth 1942) £2.

Yn "Crefftau Eryri",  
Penrhyndeudraeth. Neu gan  
Hefina Jones, 1, Brynhyfryd,  
Croesor, Penrhyndeudraeth,  
Gwynedd. LL48 6SS.  
Ffôn: Penrhyndeudraeth 770 101.